


GWERTHUSIAD NEWID MWYAF ARWYDDOCAOL ARLOESWYR



Fersiwn: Fersiwn derfynol (f3)

Dyddiad: Mai 2026

Awdur: Here2 there.me Limited

Comisiynwyd gan: Y Rhwydwaith Maethu

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Arloeswyr yn ffurfio rhan o'r rhaglen Maethu Lles ehangach, dull gweithredu cenedlaethol, sydd wedi'i ganoli ar berthynas a gynlluniwyd i gryfhau cysylltiad, dysg, a chydweithredu ledled y system faethu. Arweinir y Rhaglen hon gan Y Rhwydwaith Maethu ac fe'i hariannir gan Lywodraeth Cymru.

A hithau wedi'i seilio ar ymarfer perthynol, addysgeg gymdeithasol, a dull gweithredu sy'n ystyriol o drawma, mae'r rhaglen yn cydnabod mai perthnasoedd cryfion, ymddiriedus yw'r sylfaen ar gyfer cymorth effeithiol a gwell deilliannau i blant a phobl ifanc.

Caiff yr angen am y dull gweithredu hwn ei danlinellu gan dystiolaeth yn amlygu heriau sylweddol o fewn maethu. Mae mwy na hanner (56%) gofalwyr maeth wedi profi lludded neu les gwael o ganlyniad i faethu, ac mae llai na hanner (45%) yn teimlo'n alluog i ofyn am gymorth ar gyfer eu lles heb ofni canlyniadau negyddol. Ochr yn ochr â hyn, mae dros hanner (56%) gofalwyr maeth wedi ystyried ymddiswyddo, yn aml yn gysylltiedig â lludded, diffyg cefnogaeth, a theimlo nad oeddynt yn cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol o fewn y system.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dynodi pwysigrwydd dulliau gweithredu sy'n cryfhau cysylltiad, yn gwella modd o gael at gymorth, ac sy'n magu mwy o ymdeimlad o werth a pherthyn o fewn y gymuned faethu. Mae'r fenter hon yn ymateb yn uniongyrchol i'r heriau hyn trwy hwyluso peirianwaith ymarferol, dan arweiniad cymheiriaid i gryfhau perthnasoedd, i fagu hyder ac i wreiddio cymuned faethu fwy cysylltiedig a chefnogol. Fe'i seilir ar y gydnabyddiaeth bod gofalwyr maeth yn meddu ar gyfoeth o brofiad bywyd a all gynorthwyo gofalwyr eraill a chyfrannu tuag at welliannau mewn arferion maethu.

Defnyddiodd y gwerthusiad hwn, a hwyluswyd gan Here2There, y fethodoleg Newid Mwyaf Arwyddocaol (MSC) i archwilio sut mae'r Arloeswyr yn cyfrannu tuag at newid o fewn cymunedau maethu. Mae MSC yn ddull gwerthuso cyfranogol sy'n casglu ac yn dadansoddi hanesion o newid gan gyfranogwyr. Yn hytrach na chanolbwyntio ar ddangosyddion a ddiffiniwyd o flaen llaw, mae'n amlygu'r profiadau y mae rhanddeiliaid eu hunain yn eu hystyried yn ystyrlon iawn.

Casglwyd hanesion newid gan gyfranogwyr oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen, ac fe'u hadolygwyd trwy broses o baneli strwythuredig, yn cynnwys gofalwyr maeth, gweithwyr proffesiynol ac unigolion sydd â phrofiad bywyd. Trwy broses o drafodaeth a sgorio, rhoes paneli storïau ar restr fer oedd yn eglurebu newid ystyrlon orau, gyda phanel terfynol yn dewis stori Newid Mwyaf Arwyddocaol a stori Cymeradwyaeth Uchel. Ledled y storïau a'r trafodaethau paneli, cododd amryw o themâu allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys cryfhau rhwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid ymysg gofalwyr maeth, lleihau arwahanrwydd, mwy o hyder ac arweinyddiaeth ymysg gofalwyr, a gwell perthnasoedd rhwng gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu. Cydnabyddir rôl yr Arloeswyr yn gyffredinol fel rhywbeth sy'n helpu i fagu ymdeimlad cryfach o gymuned a helpu'i gilydd o fewn maethu.

Drwodd a thro, mae'r gwerthusiad yn awgrymu bod yr Arloeswyr yn cyfrannu tuag at newidiadau diwylliannol a pherthynol ystyrlon o fewn gwasanaethau maethu. Trwy werthfawrogi profiad bywyd gofalwyr maeth a chreu cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth gan gymheiriaid, mae'r rhaglen yn helpu i gryfhau cydweithredu, cymorth a dysg ledled y gymuned faethu.

Mae'r newidiadau hyn yn cynorthwyo gofalwyr maeth i ddarparu gofal cyson, hyderus, sydd yn ei dro yn cyfrannu tuag at well profiadau a deilliannau i blant a phobl ifanc mewn gofal maeth.

Crynodeb Gweithredol	2
1. Cyflwyniad i'r Arloeswyr	5
2. Here2There a'r Dull Gwerthuso o Weithredu	7
3. Strwythur yr Adroddiad hwn	8
4. Methodoleg a Phroses	8
4.1 Dal y Storiâu	8
4.2 Dadansoddiad Thematig	9
4.3 Rhoi Storiâu ar Restr Fer ar gyfer Adolygiad gan Banel	9
4.4 Paneli Llunio Rhestr Fer	10
4.5 Proses y Paneli	10
4.6 Panel Terfynol	11
5. Cyfyngiadau'r Gwerthusiad	13
6. Stori'r Newid Mwyaf Arwyddocaol (MSC)	14
7. Trosolwg Thematig ar Storiâu Arloeswyr	19
7.2 Themâu Allweddol Ledled Storiâu	19
7.3 Themâu a Goblygiadau Allweddol	23
7.4 Cwmwl Word	27
7.5 Ceisiadau ac Argymhellion o'r Storiâu	27
8. Trafodaethau Panel Newid Mwyaf Arwyddocaol	29
8.1 Themâu Allweddol yn Codi Ledled y Paneli	29
Cryfhau Cefnogaeth gan Gymheiriaid a Chymuned Ymysg Gofalwyr Maeth	29
Gwerth Profiad Bywyd ac Arweinyddiaeth gan Gymheiriaid	30
Cydnabyddiaeth ac Anogaeth i Ofalwyr Maeth	30
Rhoi Sylw i Arwahanrwydd yn y Rôl o Faethu	31
Magu Ymddiriedaeth a Phartneriaeth o fewn y System Faethu	31
Cynorthwyo Dysg a Datblygiad Gofalwyr Maeth	32
8.2 Mewnwelediadau gan Bobl Ifanc sydd â Phrofiad Gofal	32
8.3 Gwahanol Safbwyntiau ar yr Hyn sy'n Gwneud "Newid Arwyddocaol"	32
8.4 Myfyrdodau Cyffredinol Ledled y Paneli	33
8.5 Casgliad y Paneli	33
9. Argymhellion ac Ystyriaethau'r Dyfodol	35
9.1 Ystyriaethau Strategol	35

9.2 Ystyriaethau Gweithredol a Gweithredu	37
9.3 Edrych Ymlaen	38
9.4 Casgliad	38

1. Cyflwyniad i'r Arloeswyr

Daw'r Arloeswyr o fewn rhaglen “Maethu Lles” ehangach Y Rhwydwaith Maethu, sydd â'r nod o gryfhau'r system faethu trwy gysylltiad, dysg ar y cyd, ac arferion yn seiliedig ar berthynas. Wrth ei chraidd, mae'r rhaglen yn cydnabod bod lles gofalwyr maeth, ac ansawdd perthnasoedd ledled y “tîm o amgylch y plentyn”, yn hanfodol i gyflawni amgylcheddau sefydlog, sy'n meithrin ar gyfer plant a phobl ifanc. Ariannir y rhaglen hon gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r ffocws hwn yn adlewyrchu tystiolaeth gynyddol o heriau o fewn maethu, yn cynnwys lefelau uchel o ludded gofalwyr, teimladau o fod yn ynysig, a niferoedd sylweddol o ofalwyr yn gadael y rôl - yn aml yn gysylltiedig â diffyg cymorth a chysylltiad.

Mewn ymateb i hyn a dan arweiniad Y Rhwydwaith Maethu, nodwyd Arloeswyr i gryfhau cefnogaeth gan gymheiriaid, cydweithrediad proffesiynol, a chymuned o fewn gwasanaethau maethu. Fe'i seilir yn y gydnabyddiaeth bod gofalwyr maeth yn meddu ar gyfoeth o brofiad bywyd, a bod y profiad bywyd hwn yn adnodd hanfodol i roi sylw i heriau megis teimlo'n ynysig, diffyg cymorth, ac athreuliad gofalwyr trwy gynorthwyo gofalwyr eraill a chyfrannu tuag at welliannau mewn arferion maethu.

O fewn y rhaglen, mae gofalwyr maeth Arloesi yn ofalwyr profiadol sy'n cymryd rôl ychwanegol ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau maethu. Eu diben yw darparu cefnogaeth anffurfiol gan gymheiriaid, rhannu gwybodaeth, a gweithredu fel pont rhwng gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu. Mae gofalwyr sy'n Arloeswyr yn aml yn cynorthwyo gofalwyr sydd newydd eu cymeradwyo, yn helpu i hwyluso rhwydweithiau cymorth, ac yn cyfrannu tuag at drafodaethau am ddatblygiadau a gwelliannau i'r gwasanaeth.

Mae rôl yr Arloeswr yn cydnabod pwysigrwydd cefnogaeth cymheiriaid i gymheiriaid o fewn maethu. Mae gofalwyr maeth yn aml yn wynebu sefyllfaoedd cymhleth ac emosiynol anodd, a gall cefnogaeth gan rywun sy'n deall realtioedd y rôl fod yn amhrisiadwy. Gall gofalwyr sy'n Arloeswyr ddarparu cysur, cynghorion ymarferol ac anogaeth, gan helpu i leihau teimladau o arwahanrwydd a gwella hyder a chadernid gofalwyr.

Nod allweddol arall y rhaglen yw helpu gofalwyr maeth i ddod yn gyfranwyr gweithredol tuag at ddatblygu'r gwasanaeth. Trwy'u profiad ac ymgysylltiad uniongyrchol â gofalwyr eraill, gall Arloeswyr nodi heriau sy'n codi, amlygu meysydd ar gyfer gwelliant, a helpu gwasanaethau i ddeall y realtioedd o faethu o safbwynt gofalwr. Wrth wneud hynny, maent yn helpu i hyrwyddo diwylliant lle y caiff gofalwyr maeth eu cydnabod felartneriaid cyfartal o fewn y tîm o amgylch y plentyn.

Yn ymarferol, mae gweithgareddau Arloeswyr yn amrywio ledled awdurdodau lleol ond gallant gynnwys mentora gofalmwyr newydd, hwyluso grwpiau cefnogaeth gan gymheiriaid, cyfrannu tuag at weithgareddau hyfforddi neu recriwtio, a helpu i gryfhau cyfathrebu rhwng gofalmwyr a'r gwasanaeth maethu. Trwy'r gweithgareddau hyn, mae'r rhaglen yn ceisio gwella'r profiad maethu i ofalmwyr gan hefyd gyfrannu tuag at leoliadau mwy sefydlog a gwell deilliannau i blant a phobl ifanc.

2. Here2There a'r Dull Gwerthuso o Weithredu

Hwyluswyd y gwerthusiad o'r Arloeswyr gan Here2There, sefydliad sy'n arbenigo mewn dysgu cyfranogol, myfyrio, a phrosesau gwerthuso. Mae Here2There yn canolbwyntio ar ddulliau gweithredu sy'n galluogi unigolion a chymunedau i fyfyrion ar eu profiadau, rhannu dysg, a nodi newid ystyrlon.

Ar gyfer y gwerthusiad hwn, cefnogodd Here2There y defnydd o fethodoleg Newid Mwyaf Arwyddocaol (MSC). Mae dull gweithredu Newid Mwyaf Arwyddocaol yn dechneg gwerthuso ansoddol a chyfranogol sy'n canolbwyntio ar nodi a dadansoddi storïau newid a brofwyd gan gyfranogwyr y rhaglen. Yn hytrach na dibynnu yn llwyr ar fesurau meintiol neu ddangosyddion a ddiffiniwyd o flaen llaw, mae Newid Mwyaf Arwyddocaol yn dal effaith ddynol rhaglenni trwy gyfrifon personol o newid.

Egwyddor graidd methodoleg Newid Mwyaf Arwyddocaol yw gofyn i gyfranogwyr ddisgrifio'r hyn y maent yn ei gredu oedd y newid mwyaf arwyddocaol yn deillio o'u hymglymiad wrth raglen neu fenter. Caiff y storïau hyn wedyn eu rhannu, eu trafod a'u hadolygu gan baneli o randdeiliaid sy'n dewis y storïau sy'n cynrychioli orau y newidiadau mwyaf ystyrlon neu bwysicaf a ddigwyddodd.

Mae Newid Mwyaf Arwyddocaol yn neilltuo o addas i raglenni cymhleth lle y gall deilliannau amrywio rhwng unigolion neu lle mae newid yn anodd ei fesur trwy ddefnyddio dulliau gwerthuso traddodiadol. Trwy ganolbwyntio ar brofiadau a safbwyntiau cyfranogwyr, mae'r dull yn caniatáu i werthuswyr ennill gwell mewnwelediad i sut a pham mae newid wedi digwydd.

Yng nghyd-destun gwerthuso Arloeswyr, mae dull Newid Mwyaf Arwyddocaol o weithredu wedi'n galluogi i ddal profiad bywyd gofawyr sy'n Arloeswyr, gan archwilio sut mae'r rhaglen wedi dylanwadu ar eu rolau, eu perthnasoedd ac ar y gymuned faethu ehangach. Darparodd y broses gyfle i ofalwyr fyfyrion ar eu teithiau, nodi datblygiadau ystyrlon, ac amlygu effaith cefnogaeth gan gymheiriaid yn y gwasanaethau maethu.

3. Strwythur yr Adroddiad hwn

Daw'r adroddiad hwn â'r canfyddiadau ynghyd o'r gwerthusiad o'r Arloeswyr gan ddefnyddio methodoleg y Newid Mwyaf Arwyddocaol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- Stori'r Newid Mwyaf Arwyddocaol a ddetholwyd yn derfynol, a ddewiswyd trwy broses o adolygu panel strwythuredig.
- Adolygiad thematig o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd â gofalmwr Arloesi, yn nodi themâu, profiadau a meysydd cylchol yr effeithir arnynt ledled y rhaglen sy'n ailadrodd eu hunain.
- Dadansoddiad thematig o'r trafodaethau panel, yn amlygu'r gwerthoedd a'r blaenoriaethau a nodwyd gan randdeiliaid yn ystod y broses ddethol.
- Argymhellion ar gyfer datblygu rôl Arloeswyr yn y dyfodol, a hysbysir gan y mewnwelediadau a gasglwyd trwy gyfweiliadau a thrafodaethau panel.

Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn darparu trosolwg myfyriol ar y rhaglen, gan amlygu cryfderau'r rôl Arloesi a'r cyfleoedd am ragor o ddatblygu.

4. Methodoleg a Phroses

Gan ddefnyddio Newid Mwyaf Arwyddocaol, gweithredodd Here2There fel gwerthuswyr annibynnol, yn hwyluso'r broses werthuso ac yn cynorthwyo i gasglu, dadansoddi ac adolygu'r storïau. Mae'r canlynol yn dogfennu'r broses a ddilynwyd:

4.1 Dal y Storïau

Cymerodd cyfanswm o 28 o ofalmwr Arloesi ran mewn cyfweiliadau fel rhan o'r gwerthusiad.

Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau ar-lein gan ddefnyddio fformat lled-strwythuredig. Caniataodd hyn i gyfranogwyr rannu'u profiadau yn agored gan sicrhau bod meysydd allweddol yn cael eu harchwilio'n gyson ledled cyfweiliadau.

Gofynnwyd i gyfranogwyr fyfyrir ar eu profiadau o rôl yr Arloeswyr a disgrifio'r hyn roeddynt yn ei deimlo oedd y newid mwyaf arwyddocaol a ddeilliodd o'u hymglymiad wrth y rhaglen.

Archwiliodd y cyfweiliadau:

- taith faethu'r cyfranogwr
- eu hymglymiad wrth yr Arloeswyr
- gweithgareddau roeddynt wedi'u gwneud fel Arloeswr
- newidiadau a brofwyd yn bersonol neu o fewn y gymuned faethu

- myfyrdodau ar yr hyn roeddynt wedi'i ystyried oedd y newid mwyaf arwyddocaol.

Cafodd pob cyfweiliad ei gofnodi a'i drawsgrifio. Cafodd pob trawsgrifiad wedyn ei adolygu a'i olygu i stori Newid Mwyaf Arwyddocaol, a ysgrifennwyd yn y person cyntaf ac oedd yn adlewyrchu'n fanwl yr iaith a ddefnyddiwyd gan y cyfwelai. Cymerwyd gofal i sicrhau bod y storïau yn dal i fod yn ddilys i lais y cyfranogwr, gan gyflwyno'r wybodaeth yn eglur ac yn gryno.

Rhoes yr holl gyfranogwyr gydsyniad ar sail penderfyniad cytbwys i'w storïau gael eu defnyddio fel rhan o'r gwerthusiad, a chawsant y cyfle i adolygu / golygu neu i ychwanegu at ei stori cyn iddi gael ei rhannu.

4.2 Dadansoddiad Thematig

Ochr yn ochr â'r broses ysgrifennu stori, cynhaliwyd adolygiad thematig ledled holl drawsgrifiadau'r cyfweiliadau.

Roedd hyn yn golygu'r set lawn o 28 o storïau i nodi profiadau cyffredin, themâu cylchol, a meysydd o effeithiau canfyddedig ledled yr Arloeswyr.

Archwiliodd y dadansoddiad thematig:

- newidiadau cyffredin a ddisgrifiwyd gan ofalwyr sy'n Arloeswyr
- geiriau ac ymadroddion allweddol a ddefnyddir i ddisgrifio'u profiadau
- enghreifftiau o effaith o fewn cymunedau maethu
- rhwystrau neu heriau a brofwyd o fewn y rhaglen.

Yn anad dim, cafodd pob stori ei chynnwys yn y dadansoddiad thematig, yn cynnwys y rheiny nad aed â nhw ymlaen i broses ddewis y panel. Sicrhodd hyn fod y gwerthusiad wedi dal mewnwediadau o'r ystod lawn o ofalwyr sy'n Arloeswyr a gymerodd ran.

Mae'r canfyddiadau o'r adolygiad thematig hwn hefyd wedi hysbysu'r argymhellion a gyflwynir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

4.3 Rhoi Storïau ar Restr Fer ar gyfer Adolygiad gan Banel

Er bod y gwerthusiad wedi casglu 28 o storïau, byddai adolygu'r holl storïau o fewn panel proses unigol wedi bod yn anymarferol.

Er mwyn sicrhau proses adolygu hylaw ac ystyrlon, cynhaliodd tîm gwerthuso Here2There adolygiad cychwynnol o bob stori.

Yn ystod y cam hwn, cytunwyd na fyddai storïau gan ofalwyr sy'n Arloeswyr fu yn y rôl am lai na 12 mis yn cael eu cynnwys ym mhroses adolygu paneli. Gwnaed y

penderfyniad hwn i sicrhau bod y storïau a ystyrir gan y paneli yn adlewyrchu cyfnod sylweddol o brofiad o fewn rôl yr Arloeswr, a'u bod yn fwy tebygol o ddangos newid ystyrlon dros amser.

Gostyngodd hyn nifer y storïau yr aed ymlaen â nhw i'w hystyried gan y paneli o 28 i 16.

Yn anad dim, nid allgaewyd y 12 o storïau sy'n weddill o'r gwerthusiad. Roeddynt yn dal wedi'u:

- cynnwys yn y dadansoddiad thematig;
- hadolygu fel rhan o ddatblygiad yr argymhelliad;
- cyhoeddi yn atodiad yr adroddiad hwn.

4.4 Paneli Llunio Rhestr Fer

Hyd yn oed gyda'r gostyngiad hwn, roedd 16 o storïau yn dal i fod yn ormod i un panel eu hadolygu'n effeithiol.

I oresgyn hyn, cynullwyd tri phanel llunio rhestr fer, gyda phob un yn adolygu grŵp llai o storïau.

Roedd pob un panel wedi'i ffurfio o 5–6 o gyfranogwyr ac yn cynrychioli safbwyntiau gwahanol randdeiliaid:

- Panel 1: Pobl ifanc sydd â phrofiad bywyd o ofal
- Panel 2: Gofalwyr maeth
- Panel 3: Panel cymysg, yn cynnwys gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol, a Phennaeth Ysgol Rithiol.

Adolygodd pob un panel bump neu chwe stori a gofynnwyd iddynt ddewis dwy stori i'w tywys ymlaen i'r panel terfynol.

Cynhaliwyd pob panel ar-lein.

Ni ddarparwyd storïau o flaen llaw i gyfranogwyr paneli; yn hytrach, cafodd y storïau eu cyflwyno a'u darllen yn ystod sesiwn y panel ei hun.

4.5 Proses y Paneli

Roedd pob un panel yn dilyn proses strwythuredig a chyfranogol a gynlluniwyd i annog myfyrio a thrafodaeth.

I bob un stori:

1. Gwirfoddolodd aelod o'r panel i ddarllen y stori yn uchel i'r grŵp.

2. Ar ôl y darlleniad, agorodd hwyluswr Here2There y drafodaeth a gwahoddodd fyfyrddodau a sylwadau gan y panel.
3. Rhannodd aelodau'r panel yr hyn oedd yn drawiadol iddyn' nhw yn y stori a pham roeddynt yn teimlo bod y newid a ddisgrifiwyd yn arwyddocaol.

Yn ystod y trafodaethau hyn, cofnododd tîm Here2There nodiadau yn dal myfyrddodau a themâu allweddol a godwyd gan y panel.

Unwaith y bydd yr holl storïau wedi'u darllen a'u trafod, adolygodd yr hwyluswr y pwyntiau allweddol a gofnodwyd i bob stori.

Gofynnwyd wedyn i aelodau'r panel:

- Nodi'u hoff stori;
- Nodi'u hail hoff stori.

Rhannodd pob cyfranogwr eu dewisiadau gyda'r grŵp.

Cyfrifwyd pleidleisiau gan ddefnyddio system bwyntiau syml:

- Hoff stori: 2 bwynt
- Ail hoff stori: 1 pwynt

Nodwyd y ddwy stori a dderbyniodd y nifer uchaf o bwyntiau fel storïau a ddewisodd y panel.

Cyn cadarnhau'r canlyniad, gwahoddwyd aelodau'r paneli i fyfrio ar y deilliant, ac ystyried p'un a oeddynt yn dymuno hyrwyddo stori arall ac ail-bleidleisio. Helpodd y cam hwn i sicrhau bod y dewisiadau terfynol yn adlewyrchu barn gyfunol y panel.

Dewisodd pob un panel llunio rhestr fer felly ddwy stori, yn arwain at chwe stori yn cyrraedd y panel terfynol.

4.6 Panel Terfynol

Adolygwyd y chwe stori a roddwyd ar y rhestr fer wedyn gan banel terfynol.

Roedd aelodau'r panel terfynol yn cynnwys:

- Swyddfa Bolisi Llywodraeth Cymru
- Pennaeth Maethu Cymru
- Pennaeth Ymarfer Y Rhwydwaith Maethu
- Gofalwr Maeth
- Cydgysylltydd addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Dilynodd y panel terfynol yr un broses a ddefnyddiwyd yn y paneli cynharaf:

- Darllenwyd storïau yn uchel;
- Rhannodd aelodau'r panel fyfyrddodau a thrafodaeth;
- Bwriwyd pleidleisiau dros hoff ac ail hoff storïau.

Ar ôl y broses sgorio, dewisodd y panel:

- Y stori Newid Mwyaf Arwyddocaol terfynol;
- Stori Cymeradwyaeth uchel.

Mae'r dewisiadau hyn yn cynrychioli'r storïau y teimlai aelodau'r panel yn gyfunol eu bod wedi dal orau y newidiadau mwyaf ystyrlon yn deillio o'r Arloeswyr.

5. Cyfyngiadau'r Gwerthusiad

Fel gyda phob gwerthusiad, mae yna amryw o ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddehongli'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Yn gyntaf, mae'r gwerthusiad yn defnyddio'r fethodoleg Newid Mwyaf Arwyddocaol (MSC), sydd yn fwriadol yn ansoddol ac yn gyfranogol o ran natur. Mae Newid Mwyaf Arwyddocaol yn canolbwyntio ar ddal profiadau personol a newidiadau canfyddedig yn hytrach na mesur deilliannau meintiol a ddiffiniwyd o flaen llaw. Er bod y dull gweithredu hwn yn darparu mewnwelediad cyfoethog i sut mae cyfranogwyr yn profi newid, nid yw'n bwriadu mesur graddfa neu effaith ystadegol y rhaglen.

Yn ail, seilir y gwerthusiad ar brofiadau a hunan-adroddwyd gan ofalwyr sy'n Arloeswyr. Mae'r storïau a gasglwyd yn adlewyrchu safbwyntiau cyfranogwyr eu hunain ynglŷn â'r newidiadau y maent wedi'u profi. Er bod y safbwyntiau hyn yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i brofiad bywyd y rhaglen, efallai nad ydynt yn dal yr ystod lawn o effeithiau ledled y system faethu ehangach.

Yn drydydd, roedd y broses o ddewis storïau ar gyfer adolygiad gan banel yn gofyn am ostyngiad yn nifer y storïau a ystyrir gan y paneli. Er bod 28 o storïau wedi'u casglu fel rhan o'r gwerthusiad, dim ond 16 a ddygwyd ymlaen ar gyfer ystyriaeth gan banel oherwydd cyfyngiadau ymarferol a'r angen i sicrhau bod storïau yn adlewyrchu o leiaf 12 mis o brofiad mewn rôl Arloeswr. Fodd bynnag, cafodd pob un o'r 28 o storïau eu cynnwys yn y dadansoddiad thematig ac maent yn parhau'n rhan o'r set data gwerthuso drwyddo draw.

Yn ychwanegol, mae proses dewis gan y panel yn adlewyrchu safbwyntiau'r rheiny a gymerodd ran yn y paneli. Er bod y paneli wedi'u cynllunio'n fwriadol i gynnwys ystod o randdeiliaid — yn cynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad bywyd, gofalcwyr maeth, a gweithwyr proffesiynol — mae'r deilliannau yn anochel yn adlewyrchu gwerthoedd, blaenoriaethau a safbwyntiau'r cyfranogwyr neilltuol hynny.

Yn olaf, mae rôl yr Arloeswr ei hun yn dal i ddatblygu ledled llawer o feysydd, ac mae'r profiadau a rannir yn y storïau yn adlewyrchu gwahanol gamau gweithredu. Mae rhai gofalcwyr sy'n Arloeswyr wedi bod yn y rôl ers amryw o flynyddoedd, tra bod eraill wedi ymuno yn fwy diweddar. O ganlyniad, mae'r storïau yn cynrychioli ciplun o'r rhaglen ar adeg neilltuol mewn amser yn hytrach darlun cyflawn o'i heffaith gyfnod hir.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae dull gweithredu Newid Mwyaf Arwyddocaol yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i sut mae gofalcwyr sy'n Arloeswyr yn profi'u rôl a'r newidiadau y maent yn eu dirnad o fewn cymunedau maethu. Mae'r storïau, y dadansoddiad thematig a'r trafodaethau paneli gyda'i gilydd yn cynnig dealltwriaeth gyfoethog ac adfyfyriol o effaith newydd y rhaglen ac mae'n amlygu cyfleoedd ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

6. Stori'r Newid Mwyaf Arwyddocaol (MSC)

Trwy broses adolygu'r Newid Mwyaf Arwyddocaol, ystyriodd paneli yn ofalus y storïau a gyflwynwyd, a gwnaethant drafod pa enghreifftiau a wnaeth eglurebu orau y newidiadau mwyaf ystyrlon yn deillio oddi wrth yr Arloeswyr. Cafodd y stori a gyflwynwyd isod yn y pen draw ei dewis gan y panel terfynol fel stori'r Newid Mwyaf Arwyddocaol, gan ei bod yn adlewyrchu'n nerthol rôl cefnogaeth gan gymheiriaid, profiad bywyd, a chymuned o fewn maethu. Tra bod un stori wedi'i hamlygu yma, mae'r holl storïau a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i'r amrywiol ffyrdd y mae rôl yr Arloeswr yn gwneud gwahaniaeth. Gellir canfod set lawn o storïau a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn Atodiad A.



Stori MSC – Cyfwelai #24 “Cerdded y Daith Gyda’n Gilydd”

Cyfwelai: Cyfwelai #24
Dyddiad y Cyfweliad: 29 Hydref 2025
Cyfwelydd: Roger Rowett



C: Sut y gwnaethoch ddechrau maethu a sut brofiad oedd eich taith?

Daethom yn ofalwyr maeth 22 mlynedd yn ôl, gan ddechrau gyda lleoliadau cyfnod byr. Ein lleoliad cyntaf un oedd bachgen bach a ddychwelodd at ei deidiau a neiniau, oedd yn hyfryd ac yn gadarnhaol. Ar ôl hynny, gwnaethom lawer o ofal seibiant – i fabanod gan mwyaf – ac er nad oeddem wedi'n cofrestru'n swyddogol ar gyfer babanod, cofiaf un plentyn bach a anwyd yn diddyfnu o gyffuriau. Daeth hi atom yn wyth niwrnod oed, a chwe wythnos yn ddiweddarach, roedd hi i fod i fynd at deulu. Ni ddigwyddodd hynny o gwbl, a gorffenasom yn ei mabwysiadu pan oedd hi tuag 20 mis oed.

O hynny ymlaen, gwnaethom barhau yn bennaf yn gwneud gofal seibiant yn bennaf, oherwydd y gwyddem o brofiad bod ar ofalwyr yn aml angen seibiant – a phan fo hynny'n digwydd, mae'n well i'r plant aros yn lleol, aros yn eu hysgol, ac aros yn agos at gyfeillion. Penderfynasom gynnig seibiant dim ond i blant lleol fel y gallent aros yn eu cymuned.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi gofalu am lawer o blant yn y modd hwn. Dechreuodd un gŵr ifanc ddod atom am seibiant pan oedd tuag wyth oed. Yn ddiweddarach, pan

orffennodd ei leoliad, ffoniodd a dywedodd nad oed yn gwybod i le i fynd. Dywedais wrtho, “Tyrd adref.” Mae ef yn awr yn 27 mlwydd oed ac mae’n dal i ddod adref atom. Mae’n rhan bendant iawn o’n teulu.

Oherwydd y gwnaethom fabwysiadu’n merch, dysgais hefyd cyn lleied o gymorth ôl-fabwysiadu yr oedd yna bryd hynny. Chwiliais am fy nghymorth fy hun - canfûm seicotherapydd yn Llundain a arbenigai mewn plant wedi’u maethu a’u mabwysiadu, a hyfforddwyd gan Dan Hughes mewn rhianta therapiwtig. Newidiodd bopeth i mi. Roedd, fel y dywedaf bob amser, yn newid y sefyllfa yn llwyr.

Drwyddi hi, dysgais gymaint am drawma, ymlyniad ac adferiad - phan ddaeth y cyfyngiadau symud, aethom â’n sesiynau i Zoom, rhywbeth rydym yn dal i’w wneud yn fisol. Ati hi yr af o hyd pan fo arnaf angen trafod pethau ynglŷn â’n plentyn seibiant cyfredol, a gafodd lawer o drawma rhywiol. Trawsnewidiodd y dysgu hwnnw fy nhaith faethu.

Ac yn onest, ni allaf ond ei rannu. Dyna yn union pwy ydw i – rwyf wrth fy modd o drosglwyddo’r hyn a ddysgais, yr hyn sy’n gweithio, yr hyn nad yw’n gweithio. Rhannaf adnoddau, siaradaf am ddulliau gweithredu sy’n ystyriol o drawma, ac anogaf eraill i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio gyda phlant. Dyna fwy na thebyg sut y deuthum yn naturiol yn Arloeswr.

C: Sut y daethoch yn gysylltiedig â'r Arloeswyr?

Mae hi mewn gwirionedd yn stori ddigri' – roeddwn ar fin gadael maethu. Roeddem yn newid gweithwyr cymdeithasol, ac nid oeddwn yn sicr y byddai'r gweithiwr cymdeithasol newydd yn ein deall. Dywedais wrth fy ngŵr, “Efallai ei bod hi'n bryd rhoi'r gorau iddi.”

E-bostiais i ddweud ein bod yn meddwl gorffen, ac wedyn ffoniodd pennaeth y tîm maethu, a dywedodd, “Mae arnaf angen dod i'ch gweld.” Dywedodd wrthyf nad oedd yno i newid fy meddwl - ond dyna oedd hi! Dywedodd, “Rwyf yn dal i ddymuno eich cael, hyd yn oed os nad ydych yn cymryd unrhyw leoliadau newydd. Mae arnaf eich eisiau fel Arloeswr.”

Felly, dyna sut y dechreuodd. Ni wnes i mewn gwirionedd gymryd seibiant — roeddwn yn ôl yn maethu yn o fuan wedyn – ond roedd yn ddechreuad pennod newydd.

Ers hynny, rwyf wedi mentora a chynorthwyo gofalwyr eraill, yn enwedig gofalwyr newydd. Gweithiais gyda chwpwl ym Mlaenau Ffestiniog oedd ond yn dechrau, gan eu helpu yn y dyddiau cynnar hynny. Pan aeth un ohonynt yn wael, gwnes hyd yn oed fynd yno a gofalu am eu plant maeth fel y gallai hi fynd i'r ysbyty. Dyna'r hyn y mae bod yn Arloeswr yn ei olygu i mi — bod yn gefn i bobl, bod yn ymarferol ac yn gefnogol.

C: Pa fath o bethau a wnaethoch fel Arloeswr?

Ychydig o bopeth, mewn gwirionedd. Rwyf wedi gwneud mentora, hyfforddi, recriwtio, a hyrwyddo. Bûm yn gysylltiedig â chyrsiau recriwtio, siarad mewn digwyddiadau, gwneud fideos a chyfweiliadau i'r gwasanaeth maethu, a helpu yn Pythefnos Gofal Maeth. Hefyd, siaradais mewn eglwysi am gyfrifoldeb y gymuned i faethu a mabwysiadu - dyna un o'm hangerddau mawr.

Fe'm cyfwelwyd ar y radio, bûm yn gweithio gyda Maethu Cymru a'r Rhwydwaith Maethu, a gwnes hyd yn oed gyd-gyflwyno mewn cynadleddau gyda fy mab maeth. Mae rhannu'n stori gyda'n gilydd wedi bod yn un o uchafbwyntiau fy nhaith – mae'n real, mae'n brofiad bywyd, ac mae'n rhoi gobaith i bobl.

Yn lleol, rwyf yn rhan o rwydwaith clos o ofalwyr maeth. Cynorthwywn y naill a'r llall yn ymarferol ac yn emosiynol. Os yw rhywun yn ei chael hi'n anodd, down i helpu – croesawu'u plentyn maeth am de, rhoi noswaith o egwyl iddynt, neu ddim ond gwranddo. Rydym wedi adeiladu cymuned fechan ond nerthol lle mae cymorth yn digwydd yn naturiol.

C: Beth sydd wedi newid i chi trwy fod yn rhan o'r Arloeswyr?

Y newid mwyaf oedd cydnabyddiaeth – i ni fel gofalwyr ac er mwyn gwerth cefnogaeth gan gymheiriaid. Fe’n gwelir yn awr fel pobl y gall gweithwyr cymdeithasol atgyfeirio gofalwyr newydd iddynt, pobl y gellir ymddiried ynddynt i dywys, i wrando ac i annog.

Mae’r hyfforddiant trwy’r Arloeswyr hefyd wedi bod yn wych - rhai o’r gorau rwyf wedi’u cael. Mae’n fy herio i feddwl yn wahanol ac i fyfyrio ar fy ymarfer. Rwyf hyd yn oed wedi gwneud cyrsiau ychwanegol am iaith a chyfathrebu ar ôl un o gynadleddau’r Arloeswyr. Gwnaeth imi feddwl o ddifri’ am sut rydym yn siarad am blant - osgoi labeli, bod yn ymwybodol o’n geiriau. Newidiodd hynny sut rwyf yn siarad gyda phlant, sut rwyf yn ysgrifennu adroddiadau, a hyd yn oed sut rwyf yn siarad mewn cyfarfodydd.

Mae rhwydwaith yr Arloeswyr hefyd wedi gwneud imi deimlo’n rhan o rywbeth mwy - mudiad o ofalwyr yn dysgu oddi wrth y naill a’r llall, yn herio’r gyfundrefn, a chreu gwell deilliannau i blant. Mae’n rhoi egni imi ac adnewyddodd fy ymdeimlad o ddiben.

C: Beth rydych yn ei weld fel eich effaith fwyaf?

Credaf mai fy effaith fwyaf oedd cynorthwyo gofalwyr eraill i ddal ati – atal lleoliadau rhag chwalu trwy fod yno cyn i bethau gyrraedd argyfwng. Mae dim ond bod yn rhywun sy’n gwrando, sy’n dweud, “Mae’n iawn teimlo fel hyn,” yn gwneud cymaint o wahaniaeth.

Weithiau, mae’r cymorth yn emosiynol — gwrando, dilysu, atgoffa gofalwyr eu bod yn gwneud gwaith da. Weithiau, mae’n ymarferol – cynnig cael plentyn draw am bryd o fwyd neu arhosiad fwrw’r nos i roi egwyl i rywun. Gall y pethau bychain hynny wneud y gwahaniaeth rhwng gofalwr yn aros neu’n gadael.

Ac yna mae yna’r effaith ehangach – y gwaith hyrwyddol, y siarad, y fideos, y cynadleddau cenedlaethol. Nid wyf bob amser yn gwybod pa wahaniaeth y mae’n ei wneud, ond credaf fod rhannu profiad bywyd yn bwysig. Gall annog rhywun, yn rhywle i gymryd y cam cyntaf i faethu - neu i ddal i barhau pan fo pethau’n mynd yn anodd.

C: Beth mae rôl yr Arloeswr yn ei olygu i chi yn bersonol?

Mae’n golygu bod yn rhan o rywbeth gobeithiol. Mae’n ymwneud â cherdded ar y daith gyda’n gilydd - gofalwyr yn cynorthwyo gofalwyr, yn magu ymddiriedaeth, ac yn rhannu’r hyn sy’n gweithio.

Mae hefyd yn ymwneud â herio ac ysbrydoli eraill – gan ddangos fy mod hyd yn oed ar ôl 22 mlynedd yn dal i ddysgu, yn dal i dyfu, ac yn dal yn angerddol dros wneud pethau’n well.

Nid ydym bob amser yn gweld y canlyniadau, ond plannwn yr hadau. A bob hyn a hyn, mae rhywun yn cysylltu â ni, neu rydych yn gweld plentyn yn ffynnu, neu leoliad yn llwyddo, ac rydych yn credu, le, dyna pam rydym yn gwneud hyn.

Ystyriaeth Derfynol

Y newid mwyaf arwyddocaol i mi oedd teimlo cydnabyddiaeth a bod yn gysylltiedig – rhan o rwydwaith proffesiynol sy’n gwerthfawrogi profiad, dysg, a chydymdeimlad.

Trwy’r Arloeswyr, dysgais y gall cymorth fod yn syml ond nerthol: sgwrs, paned o de, ychydig o anogaeth, neu noson o egwyl. Dyma’r pethau sy’n cadw gofalwyr i barhau, sy’n cadw teuluoedd ynghyd, ac sy’n rhoi sefydlogrwydd i blant.

I mi, dyna yw holl ddiben bod yn Arloeswr — cerdded ar y daith gyda’n gilydd, rhannu gobaith, a gwneud maethu yn ymdrech gymunedol, nid yn ymdrech ar eich pen eich hun.

7. Trosolwg Thematig ar Storiâu Arloeswyr

Mae'r trosolwg thematig hwn yn cyfod mewnwelediadau o storiâu'r Newid Mwyaf Arwyddocaol (MSC) a gasglwyd oddi wrth gyfranogwyr sy'n Arloeswyr (gwerthusiad 2025–2026). Y nod yw canfod themâu ledled storiâu, amlygu iaith gylchol, a denu deisiadau, ceisiadau ac argymhellion sy'n deillio o brofiadau cyfranogwyr.

Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar batrymau ystyr ledled storiâu, gan ddefnyddio naratifau'r cyfweiliadau eu hunain fel y brif ffynhonnell dystiolaeth.

7.2 Themâu Ledled Storiâu Allweddol

Cysylltiad a Chymorth Perthynol i Gymheiriaid

Thema drechol ledled storiâu yw pwysigrwydd cysylltiad rhwng gofalwyr. Disgrifir Arloeswyr dro ar ôl tro fel darparu dealltwriaeth, sicrwydd emosiynol ac arweiniad ymarferol gan gymheiriaid sy'n cydategu cyfundrefnau cymorth ffurfiol.

Pwysleisiodd cyfranogwyr fod siarad gyda rhywun sy'n "deall maethu o brofiad" yn helpu gofalwyr i deimlo'n llai ynysig ac yn fwy hyderus wrth lywio trwy heriau.

Tystiolaeth o storiâu

- Mae Arloeswyr yn aml yn darparu cymorth anffurfiol, hygyrch trwy sgysiau, grwpiau WhatsApp, neu gysylltiad uniongyrchol.
- Mae gofalwyr yn gwerthfawrogi cael "rhywun i ddweud eich bod yn gwneud y peth cywir."
- Mae sgysiau gyda chymheiriaid yn helpu gofalwyr i ddilysu pryderon cyn uwchgyfeirio materion i weithwyr cymdeithasol.

Goblygiadau

- Mae gan rwydweithiau cymheiriaid rôl hanfodol mewn magu hyder a chadernid emosiynol ymysg gofalwyr.
- Gall cyfryngau cymorth anffurfiol atal dwysâd materion trwy ddatrys pryderon yn gynnar.

Sicrwydd a Dilysu Emosiynol

Mae llawer o storiâu yn pwysleisio bod Arloeswyr yn cynnig cadarnhad, anogaeth a chysur yn ystod sefyllfaoedd anodd. Mae gofalwyr yn aml yn profi ansicrwydd, ymchwiliadau neu heriau ymddygiadau cymhleth gyda phlant. Mae Arloeswyr yn eu helpu i brosesu profiadau ac i gynnal hyder yn eu rôl.

Tystiolaeth o storïau

- Rhoes gofalwyr wybod am deimlo “wedi’u cynorthwyo a’u dilysu ar ôl sgwrs gydag Arloeswr.”
- Mae Arloeswyr yn aml yn darparu anogaeth ar ôl digwyddiadau neu heriau anodd.
- Enwir cysur emosiynol yn aml fel yr agwedd fwyaf effeithiol o gymorth.

Goblygiadau

- Mae dilysiad emosiynol yn cryfhau dal gafael ar, a lles gofalwyr.
- Mae cysur gan gymheiriaid yn cydategu arweiniad trwy roi sylw i ddimensiynau dynol ac emosiynol maethu.

Arweiniad Ymarferol a Rhannu Gwybodaeth

Mae Arloeswyr yn fynych yn gweithredu fel broceriaid anffurfiol i wybodaeth, yn rhannu cynghorion ymarferol yn seiliedig ar brofiad bywyd.

Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar:

- Llywio trwy brosesau maethu
- Ymateb i heriau ymddygiadol
- Cyrchu cymorth addysgol
- Rheoli diogelu neu ymchwiliadau.

Tystiolaeth o storïau

- Mae Arloeswyr yn cynorthwyo gofalwyr gyda chwestiynau a all deimlo’n rhy fychan neu’n rhy anffurfiol i weithwyr cymdeithasol.
- Mae cynghorion gan gymheiriaid yn helpu gofalwyr i ganfod pa bryd i uwchgyfeirio problemau.
- Caiff cymorth ei ddarparu yn aml yn chwim ac yn anffurfiol trwy negeseua neu sgwrs.

Goblygiadau

- Mae arweiniad ymarferol gan gymheiriaid yn helpu gofalwyr i ddatrys problemau yn gyflym ac yn gyfrinachol.
- Mae profiad bywyd yn darparu mewnwelediad cyd-destunol nad yw bob amser ar gael trwy hyfforddiant ffurfiol.

Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Ataliol

Patrwm sy'n gylchol yw gwerth ymgysylltu cynnar â gofalwyr, yn neilltuol y rheiny sy'n newydd i faethu. Nododd amryw o gyfranogwyr y gall cymorth yn gynharach yn y daith atal anawsterau yn ddiweddarach.

Tystiolaeth o storïau

- Mae Arloeswyr yn aml yn dechrau cynorthwyo gofalwyr yn o fuan ar ôl cymeradwyaeth neu yn ystod camau maethu cynnar.
- Gall sgysiau anffurfiol helpu gofalwyr i ragweld heriau yn hytrach nag ymateb iddynt.
- Mae gofalwyr weithiau yn petruso cyn gofyn am gymorth tan y bydd argyfwng yn dechrau.

Goblygiadau

- Gall cymorth cynnar gan gymheiriaid weithredu fel ymyrraeth ataliol.
- Gall ymgysylltiad cynnar strwythuredig ag Arloeswyr wella hyder a pharodrwydd.

Hunaniaeth Gyffredin ac Adeiladu Cymuned

Mae llawer o storïau yn amlygu rôl Arloeswyr mewn creu ymdeimlad o gymuned ymysg gofalwyr.

Mae hyn yn cynnwys:

- Grwpiau sy'n gymheiriaid
- Cyfryngau cyfathrebu a rannir
- Perthnasoedd mentora.

Tystiolaeth o storïau

- Mae grwpiau WhatsApp a rhwydweithiau anffurfiol yn helpu gofalwyr i gadw'n gysylltiedig ac i rannu profiadau.
- Nododd cyfranogwyr y pwysigrwydd o beidio â theimlo eich bod ar eich pen eich hun mewn heriau maethu.
- Mae Arloeswyr weithiau yn gweithredu fel pontydd rhwng gofalwyr a chymunedau maethu ehangach.

Goblygiadau

- Mae cymunedau cymheiriaid cryfion yn cyfrannu tuag at ddal gafael ar, a lles gofalwyr.
- Mae cymorth yn y gymuned yn lleihau ynysu ac yn magu cadernid cyfunol.

Eglureb a Chysondeb Rolau ledled Rhanbarthau

Mae amryw o storïau yn adlewyrchu ansicrwydd yn ymwneud â chwmpas a strwythur rôl yr Arloeswr. Cododd cyfranogwyr gwestiynau am gysondeb ledled awdurdodau lleol a disgwyliadau'r rôl.

Tystiolaeth o storïau

- Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylai pob Arloeswr ddeall rôl yn yr un modd.
- Mae yna ddiddordeb mewn mwy o gysoni ledled cynghorau os bwriadir dull cenedlaethol o weithredu.
- Mae argaeledd cymorth yn amrywio, yn dibynnu ar gyd-destun ac adnoddau lleol.

Goblygiadau

- Gall diffiniad eglurach o rôl gryfhau cysondeb, gwelededd ac effeithiolrwydd.
- Gall mwy o gydgyssylltu wella effaith genedlaethol y rhaglen.

7.3 Themâu a Goblygiadau Allweddol

Perthnasoedd rhwng Gofalwyr Maeth, Gweithwyr Cymdeithasol ac Awdurdodau Lleol

Ledled y storïau, mae gofalwyr maeth yn disgrifio profiadau gwahanol iawn yn eu perthnasoedd â gweithwyr cymdeithasol a'r gyfundrefn awdurdodau lleol ehangach. Mewn rhai ardaloedd, mae gofalwyr yn rhoi gwybod am berthnasoedd cydweithredol a pharchus lle mae'u profiad yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi. Mewn ardaloedd eraill, mae gofalwyr yn disgrifio dynamig mwy gofalus lle maent yn teimlo'r angen i reoli'n ofalus yr hyn maent yn ei ddweud neu sut maent yn codi pryderon.

Myfyriodd amryw o gyfranogwyr ar ymdeimlad hanesyddol o wahanu rhwng gofalwyr a gweithwyr proffesiynol. Disgrifiodd un Arloeswr y dynamig hwn fel:

“Cyn hyn, teimlai'n fwy fel ‘y ni a'n nhw’. Roedd gofalwyr yn gwneud eu gorau yn eu corneli eu hunain.”

Gall y canfyddiad hwn effeithio ar barodrwydd gofalwyr i siarad yn agored am heriau neu ansicrwydd. Eglurodd un Arloeswr y gall gofalwyr weithiau deimlo'n betrusgar i godi pryderon mewn lleoliadau ffurfiol oherwydd eu bod yn pryderu y gallai'u sylwadau gael eu camddechongli neu'u cofnodi'n negyddol:

“Rwyf wedi defnyddio'r cyfle hwnnw i greu lleoedd diogel, fel ein boreau coffi, lle nad oes yna weithwyr cymdeithasol yn bresennol. Oherwydd weithiau, ni wna gofalwyr ddweud eu dweud os credant y gall yr hyn y maent ei ddweud gael ei gamddefnyddio neu'i nodi fel pryder.”

Ar yr un pryd, mae'r storïau hefyd yn cynnwys enghreifftiau o berthnasoedd cadarnhaol ac esblygol rhwng gofalwyr a'u cydweithwyr proffesiynol o'r tîm o amgylch y plentyn. Mewn rhai achosion, mae gofalwyr maeth profiadol yn cael eu cydnabod yn gynyddol fel ffynhonnell werthfawr o wybodaeth a mewnwleidiad.

Disgrifiodd un Arloeswr yr arwyddocâd o weithwyr cymdeithasol yn mynd ato/ati am gyngor:

"Weithiau, daw gweithwyr cymdeithasol ataf a gofyn imi, 'Beth fydddech chi yn ei wneud yma?' neu 'Gyda phwy y siaradasoch chi am y diagnosis hwnnw?'"

Mae'r rhyngweithiadau hyn yn cynrychioli symudiad tuag at berthnasoedd gweithio mwy cydweithredol, lle y caiff profiad bywyd gofalwyr ei gydnabod fel cyfraniad ystyrlon tuag at ymarfer.

Mae amryw o storïau yn awgrymu y gall rôl Arloeswr helpu i bontio'r bwlch rhwng gofalwyr a gwasanaethau. Trwy gynnig cefnogaeth anffurfiol gan gymheiriaid a helpu gofalwyr i fyfrio ar sefyllfaoedd, gall Arloeswyr roi mwy o hyder i ofalwyr godi materion yn adeiladol gyda'u gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol.

Fel yr eglurodd un cyfranogwr:

"Rwyf wedi gweld gofalwyr yn dychwelyd at eu gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a chodi materion, oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u dilysu ar ôl sgwrs gyda mi neu Arloeswr arall."

Drwyddi draw, mae'r storïau yn amlygu y gall ansawdd perthnasoedd rhwng gofalwyr a chymuned yr awdurdod lleol lunio profiadau gofalwyr o faethu yn sylweddol. Lle mae perthnasoedd yn teimlo'n gydweithredol ac yn barchus, mae gofalwyr yn disgrifio teimlo fel petaent yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso. Lle maent yn teimlo'n fwy oeraidd neu'n hierarchaidd, gall gofalwyr fod yn fwy cyndyn o rannu pryderon yn agored.

Arwahanrwydd ymysg Gofalwyr Maeth a Rôl Arloeswyr mewn Cryfhau Cysylltiad

Ail thema gylchol ledled y storïau yw'r ymdeimlad o arwahanrwydd y mae llawer o ofalwyr maeth yn ei brofi. Gwneir maethu yn fynych o fewn y cartref, ac efallai y caiff gofalwyr ond cyfleoedd prin i gysylltu'n rheolaidd ag eraill sy'n rhannu profiadau cyffelyb.

Myfyriodd amryw o gyfranogwyr ar sut mae cyfleoedd i gysylltu wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf. Nododd un Arloeswr:

"Ers COVID, rwyf wedi canfod bod y cysylltiadau hynny yn wirioneddol ddiffygiol. Cyn y pandemig, cefais lawer o gysylltiad trwy hyfforddiant, boreau coffi, digwyddiadau ... Ond mae hynny wedi newid. Mae'n ddistawach yn awr. Mae pobl yn fwy ynysig."

Yn y cyd-destun hwn, daw cyfleoedd i siarad gyda gofalwyr eraill sydd â phrofiad bywyd o faethu yn neilltuol o bwysig. Mae sgysiau gan gymheiriaid yn caniatáu i ofalwyr rannu heriau, gofyn cwestiynau, ac ennill cysur gan bobl sy'n deall realtioedd y rôl.

Fel yr eglurodd un cyfranogwr:

“Pan fo gofalwyr yn siarad â gofalwyr eraill, yn neilltuol Arloeswyr, maent yn fwy agored. Maent yn dweud sut maent yn gwir deimlo.”

Mae Arloeswyr yn helpu i hwyluso'r cysylltiadau hyn trwy ystod o weithgareddau anffurfiol, yn cynnwys sgysiau mentora, boreau coffi, rhwydweithiau i gymheiriaid, a grwpiau negeseua. Mae'r rhyngweithiadau hyn yn darparu lle i ofalwyr lle y gallant drafod profiadau yn rhydd, ceisio cynghorion ymarferol, a theimlo eu bod yn cael eu deall.

Mewn llawer o achosion, mae'r cymorth hwn ar gael y tu allan i oriau gwaith gwasanaethau ffurfiol. Disgrifiodd un Arloeswr sut mae gofalwyr yn aml yn ceisio cysur yn y nosweithiau pan fo sefyllfaoedd newydd yn codi:

“Mae gweithwyr cymdeithasol yn gorffen am 5 o'r gloch. Ond nid yw'r gwaith yn dod i ben. Y cwestiynau, y panig, y penderfyniadau – maent yn digwydd am 7yp, 9yp, hanner nos.”

Trwy ddarparu cefnogaeth hygyrch gan gymheiriaid yn ystod yr adegau hyn, mae Arloeswyr yn helpu gofalwyr i deimlo'n llai ar eu pen eu hunain wrth reoli sefyllfaoedd anodd.

Trwy'r cysylltiadau hyn, mae'r rhaglen yn cyfrannu tuag at fagu ymdeimlad cryfach o gymuned ymysg gofalwyr maeth, lle mae unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, nid yn unig gan weithwyr proffesiynol ond hefyd gan eraill sy'n rhannu'u profiad.

Goblygiadau ar gyfer Cadw Gafael ar Ofalwyr Maeth

Mae'r storïau yn awgrymu y gall y perthnasoedd a'r cysylltiadau a ddisgrifir uchod gael goblygiadau pwysig ar gyfer cadw gafael ar ofalwyr maeth. Mae'r canfyddiadau hyn yn adlewyrchu tystiolaeth ehangach y gall gwell cymorth a chysylltiad perthynol atal llawer o ofalwyr rhag gadael gwasanaethau maethu.

Gall cyfnodau o ansicrwydd, adolygiad ffurfiol, neu ymchwiliad fod yn neilltuol o ingol i ofalwyr maeth. Yn ystod yr adegau hyn, gall gofalwyr deimlo yn ynysig neu'n ansicr ynglŷn â'u dyfodol o fewn y gwasanaeth maethu. Mae amryw o storïau yn disgrifio sefyllfaoedd lle y darparodd Arloeswyr gefnogaeth gyson gan gymheiriaid yn ystod y cyfnodau anodd hyn.

Rhannodd un Arloeswr enghraifft o gynorthwyo gofalwr yr oedd ei adolygiad blynyddol wedi argymell dadgofrestriad:

“Roedd yna ofalwr yr oedd ei adolygiad blynyddol wedi argymell dadgofrestriad. Pan wnes ei archwilio, roedd yna ruthr wedi bod i farnu, yn seiliedig ar wybodaeth wael. Treuliais wythnosau yn cynorthwyo'r gofalwr hwnnw yn ôl ac ymlaen at WhatsApp... Yn y diwedd, cafodd yr holl beth ei ailystyried. Mae'n debygol y bydd y gofalwr yn parhau'n gofrestredig.”

Mae storïau fel hyn yn eglurebu sut y gall cefnogaeth gan gymheiriaid helpu gofalwyr i ddal i fod yn gysylltiedig â'r gwasanaeth yn ystod adegau anodd yn hytrach na chilio o'r gymuned faethu.

Mewn rhai awdurdodau lleol, caniatawyd i Arloeswyr gynnig cymorth anffurfiol i ofalwyr yn ystod ymchwiliadau neu brosesau adolygu. Dynododd cyfranogwyr y gall y dull gweithredu hwn helpu gofalwyr i deimlo'n llai ynysig yn ystod cyfnod pan allant fel arall ddatgysylltu oddi wrth y gyfundrefn.

Lle mae'r cymorth hwn wedi bod ar gael, awgrymodd cyfranogwyr ei fod wedi helpu rhai gofalwyr o fewn maethu a allai fel arall fod wedi dewis gadael. Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau ehangach sef fod llawer o ofalwyr yn teimlo'n analluog i ymofyn cymorth neu'n profi arwahanrwydd yn y rôl.

Yn fwy cyffredinol, ymddengys fod yr Arloeswyr yn cyfrannu tuag at gadw gafael trwy gryfhau hyder gofalwyr, ymdeimlad o berthyn a modd o gael at gefnogaeth gan gymheiriaid. Pan fo gofalwyr yn teimlo'n gysylltiedig ag eraill sy'n deall eu profiadau, efallai y byddant yn fwy galluog i lywio trwy heriau a pharhau'n ymrwymedig i faethu.

Er nad yw'r storïau yn darparu tystiolaeth feintiol o ddeilliannau cadw gafael ar staff, maent yn cynnig mewnwelediad ansoddol i sut y gall perthnasoedd gan gymheiriaid, cysylltiad cymunedol, a rhwydweithiau cymorth yr ymddiriedir ynddynt ddylanwadu ar benderfyniadau gofalwyr i barhau i faethu.

Mae'r cwmwl Word hwn yn deillio o'r storïau Newid Mwyaf Arwyddocaol a'r deilliannau trwy brofiadau a bwysleisiwyd gan gyfranogwyr (e.e. cefnogaeth, cymorth, cymuned, hyder). Mae amlygrwydd y termau hyn yn adlewyrchu'r amllder yr oeddynt yn ymddangos ledled y storïau.



Ledled y storïau, amlygodd cyfranogwyr amryw o feysydd lle y gellir cryfhau effaith Arloeswyr. Mae'r ceisiadau hyn yn ymwneud yn bennaf ag ymgysylltu cynharach â gofawyr, diffiniad mwy eglur o rôl, a cydweithredu cryfach ledled awdurdodau. Er y cânt eu harchwilio yn rhagor yn yr adran argymhellion yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae'r themâu a ganlyn wedi deillio yn uniongyrchol o fyfyrddodau cyfranogwyr.

Awgrymodd amryw o gyfranogwyr y gall rôl Arloeswyr ychwanegu gwerth yn gynharach yn y daith faethu, yn cynnwys yn ystod recriwtio, asesu, neu'r cyfnodau cynnar ar ôl cymeradwyaeth. Gwelwyd cysylltiad cynnar gan gymheiriaid fel ffordd o helpu gofalcon newydd i deimlo eu bod wedi'u paratoi a'u cynorthwyo yn well.

Amlygodd cyfranogwyr y gellir dehongli rôl Arloeswyr yn wahanol ledled awdurdodau. Tra bod hyblygrwydd yn caniatáu addasu lleol, teimlai rhai y byddai disgwyliadau ar y cyd mwy eglur a dealltwriaeth o'r rôl yn cryfhaucysondeb a gwelededd.

Cysoni a Chydweithredu Cenedlaethol

Ystyriai rhai Arloeswyr fod ymagweddau tuag at y rhaglen yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Mynegodd cyfranogwyr ddiddordeb mewn mwy o gysoni a chyfleoedd ar gyfer cydweithredu, yn enwedig os yw'r rhaglen yn parhau i ddatblygu'n genedlaethol.

“Os bwriadir ymagwedd genedlaethol, mae arnom angen deall ein gilydd.”

Cefnogaeth gan Gymheiriaid yn ystod Ymchwiliadau

Amlygodd amryw o storïau y straen a'r arwahanrwydd y gall gofalcwyr eu profi yn ystod ymchwiliadau neu adolygiadau. Awgrymodd cyfranogwyr y gall caniatáu cefnogaeth briodol gan gymheiriaid gan Arloeswyr yn ystod y cyfnodau hyn helpu gofalcwyr i i deimlo'n llai ynysig.

Cryfhau Cyfathrebu a Rhwydweithiau Cymheiriaid

Cafodd cyfryngau cyfathrebu anffurfiol - yn cynnwys grwpiau negeseua, sgysiau gan gymheiriaid, a rhwydweithiau lleol - eu crybwyll yn aml fel ffynonellau gwerthfawr o gymorth. Pwysleisiodd cyfranogwyr y pwysigrwydd o gynnal lleoedd cyfathrebu hygyrch, ymatebol gan gymheiriaid ar gyfer gofalcwyr.

8. Trafodaethau Panel Newid Mwyaf Arwyddocaol

Fel rhan o werthuso'r Arloeswyr, cynullwyd cyfres o baneli Newid Mwyaf Arwyddocaol (MSC) i adolygu ac i drafod storïau yn disgrifio'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen. Tynnodd y paneli hyn ystod o safbwyntiau ynghyd o bob cwr o'r system faethu.

Cynhaliwyd pedwar panel:

- Panel o ofalwyr maeth ac unigolion sy'n gysylltiedig â'r Arloeswyr o'r rhaglen Maethu Lles
- Panel yn cynnwys ymarferwyr maethu a gweithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen
- Panel o bobl ifanc sydd â phrofiad gofal
- Panel terfynol o uwch-randdeiliaid, yn cynnwys uwch-arweinwyr o fewn gwasanaethau maethu a chynrychiolwyr sy'n gysylltiedig â pholisi a'r rhwydwaith maethu ehangach.

Adolygodd pob un panel set o storïau, a gwnaethant drafod yr hyn roeddynt yn ei gredu sy'n cynrychioli'r newidiadau mwyaf ystyrlon sy'n codi o waith yr Arloeswyr. Adolygodd y panel terfynol y storïau a roddwyd ar y rhestr fer gan y paneli cynharach.

Caiff y trafodaethau manwl a myfyrdodau o bob un panel eu cynnwys yn Atodiad B. Mae'r bennod hon yn darparu cyfodiad o'r mewnwelediadau allweddol sy'n codi ledled y paneli, gan amlygu'r themâu oedd yn taro tant yn gryfaf a lle'r oedd safbwyntiau'n gyson neu'n wahanol rhwng grwpiau.

8.1 Themâu Allweddol yn Codi Ledled y Paneli

Cryfhau Cefnogaeth gan Gymheiriaid a Chymuned ymysg Gofalwyr Maeth

Ledled yr holl baneli, un o'r themâu mwyaf cyson oedd y pwysigrwydd o gefnogaeth gan gymheiriaid a chryfhau cymuned ymysg gofalwyr maeth.

Amlygodd cyfranogwyr yn fynych sut mae Arloeswyr wedi creu cyfleoedd i ofalwyr maeth gysylltu â'r naill a'r llall trwy gynulliadau anffurfiol, rhwydweithiau i gymheiriaid a gweithgareddau a rannir. Disgrifiwyd enghreifftiau megis boreau coffi a thrafodaethau gan gymheiriaid fel lleoedd pwysig lle y gallai gofalwyr siarad yn agored a chynorthwyo'r naill a'r llall.

Gwerthfawrogydd y lleoedd hyn oherwydd eu bod yn:

- Lleihau teimladau o arwahanrwydd ymysg gofalwyr maeth
- Darparu cyfleoedd i rannu profiad a chynghorion
- Magu ymddiriedaeth a chyd-gymorth yn y gymuned faethu.

Cydnabu gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol, fel ei gilydd, y gall maethu fod yn rôl ynysig yn aml. Gwelir yr Arloeswyr fel pobl sy'n helpu i ailadeiladu cysylltiadau a meithrin ymdeimlad o berthyn o fewn y gymuned faethu.

Myfyriodd uwch-randdeiliaid yn y panel olaf hefyd ar sut mae'r gweithgareddau hyn sy'n adeiladu cymuned yn helpu i gryfhau perthnasoedd o fewn gwasanaethau maethu ac i gyfrannu tuag at fwy o systemau cydweithredol.

Gwerth Profiad Bywyd ac Arweinyddiaeth gan Gymheiriaid

Thema arall a gododd yn gryf ledled y paneli oedd y pwysigrwydd o brofiad bywyd fel ffynhonnell gwybodaeth ac arweinyddiaeth.

Cydnabu cyfranogwyr yn gyson fod gofalwyr maeth yn dod ag arbenigedd gwerthfawr trwy'u profiad beunyddiol o ofalu am blant. Mae rôl yr Arloeswyr yn galluogi gofalwyr i rannu'r profiad hwn gydag eraill, gan ddarparu cymorth sy'n teimlo'n gredadwy ac yn hawdd ei ddirnad.

Amlygodd trafodaethau paneli sut mae Arloeswyr yn cyfrannu trwy:

- Cynorthwyo gofalwyr eraill yn anffurfiol trwy sgysiau a phrofiadau a rannir
- Dangos y ffordd at adnoddau a chyfleoedd hyfforddi
- Arwain trafodaethau neu weithgareddau sy'n cryfhau dysgu gan gymheiriaid.

Gwelwyd rôl yr Arloeswyr felly fel enghraifft o arweinyddiaeth gan gymheiriaid o fewn maethu, lle mae gan ofalwyr rôl weithredol mewn cryfhau'r gyfundrefn yn hytrach na dim ond derbyn cymorth gan weithwyr proffesiynol.

Ystyriai uwch-randdeiliaid fod gan y math hwn o arweinyddiaeth y potensial i ddylanwadu ar ymarfer ledled y rhwydwaith maethu.

Cydnabyddiaeth ac Anogaeth i Ofalwyr Maeth

Ledled amryw o baneli, trafododd cyfranogwyr y pwysigrwydd o gydnabyddiaeth ac anogaeth o fewn gwasanaethau maethu.

Nododd cyfranogwyr fod gofalwyr maeth yn aml yn gwneud gwaith anodd ac emosiynol heriol, ac eto nid ydynt bob amser yn derbyn cydnabyddiaeth gyson am eu hymdrechion. Gwnaeth storïau yn disgrifio adegau o anogaeth neu werthfawrogiad daro tant yn gryf gydag aelodau paneli.

Ystyriai cyfranogwyr y gall mathau syml o gydnabyddiaeth:

- Atgyfnerthu hyder gofalwyr

- Cryfhau cymhelliad
- Cynorthwyo gofalwyr i barhau yn eu rôl.

Awgrymodd y drafodaeth fod creu diwylliant lle mae gofalwyr maeth yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi yn agwedd bwysig o gynnal y gymuned faethu.

Rhoi Sylw i Arwahanrwydd yn y Rôl o Faethu

Ymddangosodd arwahanrwydd fel problem gylchol ledled y trafodaethau.

Nododd cyfranogwyr o wahanol baneli fod gofalwyr maeth yn fynych wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ac efallai bod ganddynt ond ychydig o gyfleoedd i ryngweithio â gofalwyr eraill. Gall hyn ei gwneud hi'n anodd rhannu profiadau neu ymofyn cynghorion.

Gwelwyd yr Arloeswyr yn fynych fel pobl sy'n helpu i roi sylw i'r her hon trwy greu cyfleoedd i ofalwyr gysylltu a chynorthwyo'r naill a'r llall.

Cydnabu cyfranogwyr hefyd y gall lleihau arwahanrwydd ymysg gofalwyr gael buddion ehangach, yn cynnwys gwell lles i ofalwyr a chymorth cryfach i'r plant y maent yn gofalu amdanynt.

Magu Ymddiriedaeth a Phartneriaeth o fewn y System Faethu

Amlygodd amryw o drafodaethau bwysigrwydd ymddiriedaeth a phartneriaeth rhwng gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu.

Disgrifiodd rhai cyfranogwyr brofiadau lle'r oedd gofalwyr maeth wedi teimlo eu bod wedi'u hallgáu o brosesau llunio penderfyniadau neu wedi'u datgysylltu oddi wrth cyfundrefnau proffesiynol. Gwnaeth storïau yn disgrifio gwell perthnasoedd a chydweithredu cryfach felly daro tant yn fwy.

Ystyriodd aelodau'r paneli y gall yr Arloeswyr gyfrannu tuag at ailadeiladu ymddiriedaeth trwy:

- Creu cyfleoedd am ddeialog rhwng gofalwyr a gweithwyr proffesiynol
- Annog cydweithredu a rhannu datrys problemau
- Sicrhau y caiff lleisiau gofalwyr eu clywed a'u gwerthfawrogi.

Nododd uwch-randdeiliaid y gall y datblygiadau hyn gyfrannu tuag at bartneriaethau cryfach o fewn gwasanaethau maethu.

Cynorthwyo Dysg a Datblygiad Gofalwyr Maeth

Ymatebodd cyfranogwyr hefyd yn gadarnhaol i storïau lle'r oedd gofalwyr maeth wedi dangos ymrwymiad i ddysgu ac i wella'u hymarfer, yn neilltuol mewn meysydd megis gofal sy'n ystyriol o drawma.

Pwysleisiodd panel y bobl ifanc y pwysigrwydd fod gofal yn deall trawma a phrofiadau plant mewn gofal. Ystyriai cyfranogwyr fod gofalwyr sy'n chwilio'n weithgar am gyfleoedd hyfforddi a dysgu yn fwy galluog i gynorthwyo plant yn effeithiol.

Amlygodd y thema hon bwysigrwydd dysgu parhaus o fewn maethu, a ategir trwy rwydweithiau i gymheiriaid a gwybodaeth a rannir.

8.2 Mewnwelediadau oddi wrth Bobl Ifanc sydd â Phrofiad Gofal

Cynigiodd y panel o bobl ifanc sydd â phrofiad gofal safbwyntiau neilltuol bwysig ar y storïau.

Pwysleisiodd cyfranogwyr mai'r enghreifftiau mwyaf ystyrlon o newid oedd y rheiny lle y dangosodd gofalwyr maeth:

- Gofal ac ymrwymiad diffuant i blant
- Amynedd a pharodrwydd i fagu ymddiriedaeth
- Ymdrechion i ddeall profiadau a chefnidiroedd plant.

Roedd storïau yn disgrifio gofalwyr yn dysgu am drawma, yn eiriol dros bobl ifanc, neu'n gwneud ymdrechion i ddeall hunaniaeth ddiwylliannol yn taro tant yn gryf gyda'r grŵp.

Yn anad dim, ystyriai rhai pobl ifanc fod clywed y storïau wedi bod yn ysbrydoledig ac yn grymuso. Disgrifiodd cyfranogwyr sut y dangosodd y storïau y gwahaniaeth cadarnhaol y gall gofalwyr maeth ei wneud, a mynegodd amryw fod y storïau wedi'u hysbrydoli i ystyried mynd yn ofalwyr maeth eu hunain yn y dyfodol.

Mae'r ymateb hwn yn amlygu potensial storïau maethu cadarnhaol nid yn unig i eglurebu newid o fewn y gyfundrefn, ond hefyd i ddylanwadu ar sut mae pobl ifanc sydd â phrofiad gofal yn ystyried eu rôl eu hunain yn y dyfodol ynddo.

8.3 Gwahanol Safbwyntiau ar yr hyn sy'n Gwneud "Newid Arwyddocaol"

Er y rhannwyd llawer o themâu ledled paneli, roedd yna weithiau wahaniaethau rhwng cyfranogwyr ynglŷn â sut roeddynt yn diffinio'r hyn sy'n gwneud newid yn fwyaf arwyddocaol.

Roedd rhai o aelodau'r paneli yn neilltuol o hoff o storïau a ddangosai effaith emosiynol, megis yr ymroddiad a'r cydymdeimlad a ddangosir gan ofalwyr maeth unigol.

Canolbwyntiai eraill yn fwy ar newidiadau ymarferol neu systemig, megis mentrau a greodd strwythurau newydd ar gyfer cefnogaeth gan gymheiriaid neu a ddylanwadodd ar ymarfer o fewn gwasanaethau maethu.

Mae'r safbwyntiau gwahanol hyn yn adlewyrchu amrywiol rolau a phrofiadau aelodau'r paneli ledled y system faethu. Fodd bynnag, yn hytrach na chreu anghytuno, gwnaeth y safbwyntiau hyn gyfoethogi'r drafodaeth trwy amlygu llawer dimensiwn o newid.

8.4 Myfyrdodau Cyffredinol Ledled y Paneli

O'u cymryd gyda'i gilydd, mae trafodaethau'r paneli yn eglurebu bod yr Arloeswyr yn cael eu dirnad fel pobl sy'n creu newidiadau ystyrlon ledled amryw o feysydd rhyng-gysylltiedig.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cryfhau rhwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid ymysg gofalcwyr maeth
- Lleihau arwahanrwydd ac adeiladu cymuned o fewn maethu
- Annog arweinyddiaeth gofalcwyr maeth a rhannu profiad bywyd
- Cynorthwyo dysg a datblygiad gofalcwyr maeth
- Cryfhau perthnasoedd ac ymddiriedaeth o fewn systemau maethu.

Ledled y paneli, storïau a darodd dant yn gryfaf oedd y rheiny a eglurebai berthnasoedd dilys, cefnogaeth gan gymheiriaid, ac ymrwymiad diffuant i wella profiadau plant a gofalcwyr.

Dangosodd y trafodaethau hefyd fod yr Arloeswyr yn cael eu gwerthfawrogi nid yn unig am y gweithgareddau ymarferol y maent yn eu galluogi, ond hefyd am y diwylliant o gydweithredu, cydnabyddiaeth a dysg a rannir y maent yn eu helpu i'w meithrin.

8.5 Casgliad y Paneli

Darparodd trafodaethau'r paneli Newid Mwyaf Arwyddocaol gyfle cyfoethog i fyfyrion ar y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Arloeswyr o ystod o safbwyntiau ledled y system faethu.

Er bod pob un panel wedi dod â'i brofiadau a'i flaenoriaethau ei hun, roedd yna gysoni cryf ynglŷn ag amryw o themâu allweddol, yn neilltuol pwysigrwydd cymuned, cefnogaeth gan gymheiriaid, arweinyddiaeth gan ofalcwyr maeth a chryfhau perthnasoedd o fewn gwasanaethau maethu.

Amlygodd y trafodaethau hefyd y dylanwad nerthol y gall storïau maethu cadarnhaol eu cael. I bobl ifanc sydd â phrofiad gofal yn neilltuol, roedd clywed am ymroddiad ac ymrwymiad gofalcwyr maeth yn gysurion ac yn ysbrydoli.

Gellir canfod crynodeb manwl o'r trafodaethau o fewn pob un panel yn Atodiad B, sy'n cynnwys y myfyrdodau, y themâu a'r meysydd cytundeb a nodwyd yn ystod y broses Newid Mwyaf Arwyddocaol.

Gyda'i gilydd, mae'r trafodaethau hyn yn darparu mewnwelediad gwerthfawr i sut mae'r Arloeswyr yn cyfrannu tuag at newid cadarnhaol o fewn y gymuned faethu.

9. Argymhellion ac Ystyriaethau'r Dyfodol

Mae'r storïau a'r trafodaethau panel yn amlygu gwerth sylweddol yr Arloeswyr wrth gryfhau cefnogaeth gan gymheiriaid, magu hyder ymysg gofalwyr maeth, a chreu cysylltiadau cryfach ledled y gymuned faethu. Yn y pen draw, mae'r buddion hyn yn cyfrannu tuag at sefydlogrwydd, ansawdd a chynaliadwyedd lleoliadau gofal maeth, sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni gwell deilliannau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Mae'r argymhellion a ganlyn yn adlewyrchu cyfleoedd i gryfhau rhagor ar y rhaglen trwy fwy o gydgyssylltu, dysg a rannir, a strwythurau mwy eglur ar gyfer cydweithredu, gan sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael eu cynorthwyo'n dda i ddarparu'r gofal gorau posibl i blant a phobl ifanc.

9.1 Ystyriaethau Strategol

CryfhauCydgyssylltuCenedlaetholaDysgaRannir

Mynegodd cyfranogwyr ledled storïau a thrafodaethau paneli ddiddordeb mewn mwy o gysoni cenedlaethol ledled yr Arloeswyr. Er bod hyblygrwydd lleol yn bwysig, mae yna werth pendant mewn galluogi Arloeswyr ledled gwahanol awdurdodau i ddysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu dulliau effeithiol o weithredu.

Gall datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer rhannu gwybodaeth helpu i ledaenu arloesi a lleihau dyblygu ymdrechion. Gall hyn gynnwys peirianweithiau ar gyfer rhannu mentrau llwyddiannus, dysgu oddi wrth heriau, ac amlygu ymarfer da sy'n codi.

Datblygu Proffiliau Rôl Cenedlaethol i Arloeswyr

Amlygodd amryw o drafodaethau y gwerth dichonol o gael cyfeirlyfr cenedlaethol neu cyfundrefn broffiliau ar gyfer Arloeswyr, gan nodi meysydd unigol o arbenigedd neu brofiad. Gall hyn alluogi Arloeswyr a gwasanaethau i ganfod pwy a all gynorthwyo mewn sefyllfaoedd penodol.

Er enghraifft, mae gan rai Arloeswyr brofiad neilltuol mewn meysydd megis:

- cynorthwyo gofalwyr newydd
- addysg ac eiriolaeth niwroamrywiaeth
- lleoliadau cymhleth
- mentora gan gymheiriaid a datblygu cymuned.

Byddai cyfundrefn broffil genedlaethol yn caniatáu i awdurdodau lleol ac Arloeswyr gysylltu gofalwyr ag arbenigedd perthnasol ar draws ffiniau awdurdodau pan fo angen, gan gryfhau'r rhwydwaith cymorth cyffredinol.

Cydnabod Rôl Cefnogaeth gan Gymheiriaid wrth Gadw Gafael ar Ofalwyr

Mae'r storïau yn awgrymu y gall cefnogaeth gan gymheiriaid fod â rôl bwysig wrth helpu gofalwyr i lywio trwy gyfnodau anodd, yn cynnwys ymchwiliadau, adolygiadau, neu leoliadau heriol. Mewn rhai awdurdodau, mae caniatáu Arloeswyr i ddarparu cefnogaeth anffurfiol gan gymheiriaid yn ystod ymchwiliadau wedi helpu gofalwyr i barhau i ymgysylltu â'r gwasanaeth a pharhau i faethu.

Gall canllawiau cenedlaethol archwilio sut y gall cefnogaeth gan gymheiriaid gael ei integreiddio'n ddiogel i mewn i'r prosesau hyn gan gynnal ffiniau proffesiynol priodol.

Parhau i Ddatblygu Rôl yr Arloeswyr fel Pont rhwng Gofalwyr a Gwasanaethau

Ledled y storïau, mae Arloeswyr yn fynych yn gweithredu fel pont rhwng gofalwyr a gwasanaethau awdurdodau lleol, yn helpu gofalwyr i ynganu pryderon, rhannu dysg, a magu hyder mewn ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol.

Gall cryfhau rhagor ar y rôl bontio hon helpu i feithrin perthnasoedd mwy cydweithredol rhwng gofalwyr a'r gyfundrefn, gan ymbellhau oddi wrth ganfyddiadau o ddiwylliant "y ni a nhw".

Ffurfioli ac ehangu rôl yr Arloeswyr i gynorthwyo gofalwyr maeth yn ystod honiadau

Mae cyfnodau o ymchwilio a honiad yn cynrychioli rhai o'r adegau mwyaf heriol a straen uchel yn nhaith gofalwr maeth, sydd yn aml yn peri i ofalwyr deimlo'n ynysig ac yn ddiymgeledd. Mae gan gryfhau argaeledd cefnogaeth briodol gan gymheiriaid yn ystod y cyfnodau hyn y potensial i sicrhau bod gofalwyr maeth profiadol ac ymrwymedig yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i aros yn y gymuned faethu, yn hytrach na datgysylltu pan fo argyfwng.

Mae rôl yr Arloeswr mewn sefyllfa dda i gynnig cymorth perthynol, anffurfiol yn ystod yr adegau hyn, gan helpu gofalwyr i deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu cysuro ac yn llai ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, o ystyried natur sensitif a chymhleth ymchwiliadau, mae'n bwysig bod y cymorth hwn yn cael ei ddarparu o fewn terfynau eglur a phriodol gan gydategu yn hytrach na gwrthdaro â phrosesau ffurfiol.

Dylid darparu hyfforddiant a datblygiad wedi'u targedu i Arloeswyr i'w cynorthwyo i wneud y gwaith yn effeithiol. Gall hyn gynnwys arweiniad ar gynnal terfynau priodol, deall prosesau ymchwiliad, cynnig cefnogaeth gan gymheiriaid sy'n emosiynol gefnogol ond yn anymwthiol, a gwybod pa bryd a sut i gyfeirio neu i uwchgyfeirio pryderon.

Trwy gyfarparu Arloeswyr â'r hyder a'r eglurder i ddarparu'r math cywir o gymorth ar yr adeg gywir, gall y rhaglen gryfhau'i chyfraniad tuag at les a chadw gafael ar ofalwyr maeth, gan sicrhau bod gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynorthwyo trwy rai o'r cyfnodau anosaf yn eu profiad maethu.

9.2 Ystyriaethau Gweithredol a Gweithredu

Rhannwch Lasbrintiau ac Adnoddau Ymarferol Digwyddiadau

Datblygodd llawer o Arloeswyr fentrau llwyddiannus megis:

boreau coffi a grwpiau trafodaethau gan gymheiriaid
trefniadau mentora anffurfiol
sesiynau dysgu â thema ar gyfer gofalwyr
rhwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid ar-lein.

Gall cynnal a rhannu glasbrintiau digwyddiadau a chanllawiau ymarferol ar gyfer y gweithgareddau hyn helpu awdurdodau eraill i ddyblygu dull gweithredu llwyddiannus heb fod angen eu datblygu o'r dechrau un.

Gall y rhain gynnwys templedi syml yn ymdrin â:

- diben a fformat y digwyddiad
- dulliau gweithredu ar gyfer hwyluso
- ystyriaethau diogelu
- gwersi a ddysgwyd.

Creu Ystorfa o Storiâu Ymarfer Gorau

Mae'r storiâu Newid Mwyaf Arwyddocaol eu hunain yn amlygu gwerth enghreifftiau go iawn o newid ac effaith. Gall creu ystorfa a rannir o "storiâu ymarfer gorau" byrion helpu Arloeswyr ac awdurdodau lleol i:

- eglurebu gwerth cefnogaeth gan gymheiriaid
- rhannu dulliau gweithredu arloesol
- cynorthwyo dysgu ledled y rhwydwaith.

Gall y storiâu hyn hefyd gael eu defnyddio i gynorthwyo hyfforddiant, datblygu rhaglenni, ac eiriolaeth genedlaethol.

Cynorthwyo Cydweithredu Ledled Awdurdodau Rhwng Arloeswyr

Awgrymodd trafodaethau paneli y byddai mwy o gyfleoedd i Arloeswyr gysylltu â chymheiriaid mewn awdurdodau eraill yn werthfawr. Gall hyn gynnwys:

- sesiynau dysgu rheolaidd ledled awdurdodau
- grwpiau trafodaeth thematig
- cyfleoedd i Arloeswyr rannu heriau a datrysiadau.

Byddai'r cysylltiadau hyn yn helpu i gryfhau'r ymdeimlad o gymuned Arloeswyr ehangach, gan ganiatáu i ddulliau gweithredu arloesol ledaenu'n gyflymach.

Parhau i Gynorthwyo Rhwydweithiau Anffurfiol i Gymheiriaid

Mae'r storïau yn amlygu'n gyson pwysigrwydd cefnogaeth anffurfiol, hygyrch gan gymheiriaid, yn cynnwys grwpiau negeseua, boreau coffi, a sgysiau mentora un ac un.

Bydd sicrhau bod gan Arloeswyr yr amser a'r cymorth i hwyluso'r cysylltiadau hyn yn parhau'n rhan bwysig o gynnal effaith y rhaglen.

9.3 Edrych Ymlaen

Mae'r Arloeswyr yn dangos sut y gall cysylltiad cymheiriaid, profiad bywyd, a chymorth cymunedol gryfhau systemau maethu. Trwy adeiladu ar y ddysg a gynhwyswyd yn y storïau a'r trafodaethau paneli hyn, mae yna gyfle i ddatblygu rhagor ar y rhaglen fel rhwydwaith cydgysylltiedig o ofalwyr profiadol yn cynorthwyo'r naill a'r llall.

Mae cynorthwyo gofalwyr maeth yn y ffordd hon yn y pen draw yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn gofal yn profi lleoliadau sefydlog, gofalwyr hyderus, a rhwydweithiau cymorth cryfion, sy'n creu'r amgylchiadau ar gyfer deilliadau cadarnhaol a pharhaol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

9.4 Casgliad

Aeth y gwerthusiad hwn ati i archwilio'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Arloeswyr o'r rhaglen Maethu Lles gan ddefnyddio'r fethodoleg Newid Mwyaf Arwyddocaol. Trwy gasglu ac adolygu storïau gan gyfranogwyr, creodd y broses le i fyfyrion ar effeithiau personol, perthynol a diwylliannol y fenter.

Mae'r canfyddiadau o'r gwerthusiad hwn yn amlygu'r Arloeswyr fel ymateb effeithiol, ymarferol a pherthynol i rai o'r heriau mwyaf taer o fewn maethu. Dengys tystiolaeth fod llawer o ofalwyr maeth yn profi lludded, arwahanrwydd, a diffyg cymorth, gyda niferoedd sylweddol yn gadael y rôl o fewn y pum mlynedd gyntaf.

Mae rôl yr Arloeswyr yn rhoi sylw uniongyrchol i'r heriau hyn trwy gryfhau cefnogaeth gan gymheiriaid, adeiladu cymuned, a chreu cyfleoedd i ofalwyr deimlo eu bod yn cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi, a'u bod yn gysylltiedig. Trwy gymorth anffurfiol, rhannu dysg, ac arweinyddiaeth â phrofiad bywyd, mae Arloeswyr yn helpu i greu'r amgylchiadau lle mae gofalwyr yn fwy hyderus, cadarn, ac yn gallu parhau yn eu rôl.

Amlygodd y storïau a'r trafodaethau paneli yn gyson y pwysigrwydd o berthnasoedd cymheiriaid o fewn maethu. Mae hyn yn rhoi bywyd i'r effaith y gall Arloeswyr ei chael wrth gynorthwyo eraill, rhannu gwybodaeth, a helpu gofalwyr maeth i deimlo'n llai ynysig yn yr hyn a all yn aml fod yn rôl anodd. Mae'r gefnogaeth hon gan gymheiriaid yn helpu gofalwyr i deimlo'n fwy hyderus, yn gysylltiedig ac yn gadarn, gan gryfhau'u gallu i ymateb i anghenion cymhleth y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu cynorthwyo.

Thema allweddol arall a gododd o'r gwerthusiad oedd y gydnabyddiaeth gynyddol o ofalwyr maeth fel partneriaid o fewn y system faethu ehangach. Trwy rôl yr Arloeswr,

mae gofalwyr yn gynyddol alluog i gyfrannu eu profiad bywyd tuag at drafodaethau am ymarfer, dysgu a gwella gwasanaeth. Mae hyn yn helpu i gryfhau perthnasoedd rhwng gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, ac mae'n cynorthwyo diwylliant mwy cydweithredol.

Er nad yw'r dull Newid Mwyaf Arwyddocaol o weithredu yn ceisio mesur effaith mewn termau meintiol, mae'n darparu mewnwelediad cyfoethog i sut mae cyfranogwyr eu hunain yn profi newid. Dengys y storïau a gasglwyd sut mae gweithredoedd o gymorth, anogaeth a dysg ar y cyd ymysg gofalwyr yn gallu cryfhau'r gymuned faethu drwyddi draw.

Yn y modd hwn, mae'r fenter yn cyfrannu nid yn unig tuag at well lles i ofalwyr, ond hefyd tuag at gynaliadwyedd gwasanaethau maethu a sefydlogrwydd lleoliadau i blant a phobl ifanc. Fel rhan o'r rhaglen Maethu Lles ehangach, mae'n cynrychioli symudiad tuag at gyfundrefn fwy cysylltiedig, sy'n canolbwyntio ar berthynas lle mae holl aelodau'r gymuned faethu yn cael eu cynorthwyo i gydweithio'n effeithiol. Trwy gryfhau rhwydweithiau cymheiriaid, gwerthfawrogi profiad bywyd a meithrin cydweithrediad, mae'r Arloeswyr yn cyfrannu tuag at amgylchedd maethu cryfach sy'n cynorthwyo gwell lles, sefydlogrwydd a deilliannau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.